BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD 2021-2036

# TYSTIOLAETH DDEMOGRAFFIG ATODOL - AMCANESTYNIADAU POBLOGAETH AC AELWYDYDD AWDURDODAU LLEOL LLYWODRAETH CYMRU YN 2022

Tachwedd 2025



## PAPUR CEFNDIR - BP8A

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

**Tystiolaeth Ddemograffig Atodol - Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru yn 2022**

Crynodeb gweithredol

i. Ar 20 Tachwedd 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd yn 2022 ar gyfer y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae angen ystyried y rhagdybiaethau sy'n llywio'r amcanestyniadau hyn yng nghyd-destun y gofynion tai a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) Adnau.

ii. Ar adeg paratoi Strategaeth a Ffefrir a Chynllun Adnau y CDLlN, y gyfres ddiweddaraf o amcanestyniadau awdurdod lleol oedd amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd 2018, a gyhoeddwyd yn 2020. Mae'r CDLlN yn cael ei gefnogi gan Dystiolaeth Ddemograffig a baratowyd gan Edge Analytics a'r Papur Cefndir ar Opsiynau Tai a Thwf Cyflogaeth (BP7). Mae'r rhain yn dangos bod amrywiaeth o senarios twf poblogaeth wedi'u hystyried. Roedd hyn yn cynnwys prif amcanestyniadau 2018, amcanestyniadau amrywiolion ac ystod o senarios eraill, gan gynnwys senarios dan arweiniad anheddau.

iii. Mae gofyniad tai y CDLlN yn seiliedig ar amcanestyniad anheddau ac mae wedi'i osod ar lefel y dangosir ei bod yn gyflawnadwy, gan adlewyrchu cwblhau tai dros gyfnod o 10 mlynedd, wrth gydbwyso capasiti amgylcheddol ag angen tai fforddiadwy. Mae'r prif amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer Bro Morgannwg yn 2022 yn uwch na'r amcanestyniadau yn 2018 a'r CDLlN.

iv. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn glir ei bod yn bwysig ystyried ystod o dystiolaeth wrth osod gofynion tai ar gyfer y CDLlN. Os ystyrir amcanestyniadau 2022 ar wahân heb graffu'n llawn ar y rhagdybiaethau y tu ôl iddynt, gall hyn awgrymu y dylai'r CDLlN geisio lefel uwch o dwf. Fodd bynnag, mae'n amlwg o asesu tystiolaeth a chyngor y Prif Ystadegydd nad dyma'r dull y dylid ei gymryd, gan y dylai “defnyddwyr ystyried yr ystod lawn o amrywiolion wrth ddefnyddio'r amcanestyniadau, i adlewyrchu'r ansicrwydd mewn patrymau mudo presennol ac yn y dyfodol.”

v. Mae'r amcanestyniadau ar gyfer y Fro yn dangos amrywiad sylweddol mewn mudo mewnol yn arbennig ac felly dylid eu trin yn ofalus. Mae'r amcanestyniadau yn seiliedig ar dueddiadau ac felly mae ffactorau penodol a allai fod wedi digwydd yn ystod y 5 mlynedd blaenorol yn effeithio arnynt. Roedd y 5 mlynedd dan sylw yn cynnwys cyfnod o adeiladu tai uchel sy'n gysylltiedig â CDLl newydd ei fabwysiadu, yn ogystal â phandemig Covid 19, lle dychwelodd llawer o fyfyrwyr adref o gyfeiriadau tymor ac ail-gofrestru gyda meddygon teulu yn y Fro.

vi. O ystyried yr amrywiad yn y ffigurau mudo diweddar, mae ystyried tueddiadau tymor hwy yn briodol, a nodir bod y newid poblogaeth a nodwyd yn yr amrywiad mudo 10 mlynedd yn arbennig ar lefel debyg i'r hyn a gynigir o dan amcanestyniad y CDLlN.

vii. I gloi, am y rhesymau a nodwyd uchod, er gwaethaf yr amcanestyniadau wedi'u diweddaru, mae gofyniad tai y CDLlN yn parhau i gynrychioli sylfaen gadarn i gyflawni lefel gynaliadwy a chyflawnadwy o dwf dros gyfnod y cynllun.

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

